Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

# Absenoldeb Astudio ar gyfer Meddygon Sylfaen

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â Pholisi Absenoldeb Astudio Cymru Gyfan ar gyfer Meddygon a Deintyddion mewn Hyfforddiant.

**Hawliau — Amser a Chyllideb**

Mae'r hawl amser mewn Sefydliad yn cael ei rannu rhwng y blynyddoedd F1 ac F2 o hyfforddiant.

| **Blwyddyn Sylfaen 1** | **Blwyddyn Sylfaen 2** |
|---|---|
| Hyd at 2 ddiwrnod ar gyfer cwblhau cwrs ALS [1] | 3 diwrnod ar gyfer Diwrnodau Astudio F2 [2] |
| Hyd at 5 diwrnod ar gyfer rhagflas [3] | 5 diwrnod addysgu generig [2] |
| Hyd at 2 ddiwrnod o absenoldeb astudio cyffredinol [4] | Hyd at 5 diwrnod ar gyfer rhagflas [3] |
| | Hyd at 8 diwrnod ar gyfer absenoldeb astudio cyffredinol [4] |
| **Cyfanswm - Hyd at 9 diwrnod** | **Cyfanswm - Hyd at 21 diwrnod** |

| | |
|---|---|
| **Dim Cyllideb Astudio ar gael** | **Cyllideb astudio £480** |

Mae gan Feddygon Sylfaen sy'n ymgymryd â Rhaglen F1 Arbenigol hawl hefyd i gymryd hyd at 5 diwrnod ychwanegol a £250 o gyllideb absenoldeb astudio i gefnogi elfen academaidd eu swydd.

[1] Mae'r cwrs ALS yn cael ei drefnu gan ganolfannau ôl-raddedig lleol, fel arfer tuag at ddechrau'r flwyddyn hyfforddi. Dim ond ar gyfer elfennau addysgu wyneb yn wyneb y cwrs y gellir cytuno ar absenoldeb astudio, a gellir defnyddio Amser Hunan-Gyfeiriedig (SDT) yn lle hynny i gwblhau unrhyw fodiwlau e-Ddysgu cysylltiedig.

[2] Mae Diwrnod Astudio F2 ac addysgu generig yn cael eu hamserlennu gan Fyrddau Iechyd ac mae presenoldeb yn orfodol.

[3] Yn ddelfrydol, dylid cynnal rhagflas Gyrfa/Arweinyddiaeth o fewn yr un Bwrdd Iechyd, er y gellir eu cynnal o fewn Cymru lle mae rheswm penodol.

[4] Gellir cymryd absenoldeb astudio cyffredinol i fynychu/cyflwyno mewn cynadleddau ac ar gyfer sefyll arholiadau sy'n angenrheidiol ar gyfer datblygiad gyrfa. *Ni chaniateir amser i ffwrdd i baratoi ar gyfer arholiadau ac "astudio preifat".*